

DWY OCHR I'R UN STORI.

'R wyf yn 'Fardd Mawr',
yn ennill clod gan bron bod beirniad sydd yn bod.
Fy nghamp i ydyw cael cadeiria'
(a hefyd, ambell dro, corona');
ond yn y flwyddyn Twenti Twenti,
hynny stopiwyd gan ryw firws Covid drewllyd.
Effeithio wnaeth ar fy synhwyrâu
a fedrwn i ddim trin llythrennau!

Daeth y broblem yn reit sydyn
a methwn drin â geiriau wedyn!
A chawn odli braidd yn anodd
a 'd oedd yna neb i'm gwahodd
i gystadlu mewn eisteddfod
am fod y cwbl wedi darfod.
Er, wedi arfer â'r gair GOHIRIO,
lluniais odl efo CANSLO.
Ond yn Twenti Twenti Wan,
ni threfnwyd 'steddfod yn 'r un llan.
Dim ond Zoom neu Skype a Ffêsbwc
a dyna pryd y profais anlwc.

Ennill wnes ar Bennill Telyn
ond chlywodd neb mohoni wedyn.
Er ei bod yn un reit glyfar-
welwyd mo'ni byth. Na, Nefar!
Roedd fy *laptop* wedi torri
ac anghofiodd pawb amdani.
Chlywodd neb fy odlau mewnol.

(A dweud y gwir-roedd yn uffernol!

*Ond neb arall a gystadlodd ac felly'r beirniad-nid o'i wirfodd-
roddodd gadair fechan iddo am ryw bill gwerth ei hanghofio.)*

Pe bai rhywun fyth yn gofyn,
'Pwy oedd prifardd Llanbidinodyn?'
Yr ateb fydd, yn siŵr ichi,
ei fod o'n rhywun ond **nid** fi.
Wnaiff 'r un 'Bardd Mawr' fyth gyfadda'
iddo sgwennu pennill tila.
Aros wnaef am gadair arall
am sgwennu awdl hir, ddi-ddeall.
Ac os na chaf un yn Nhregaron,

byddaf siŵr o dorri 'nghalon.
Byddai'n braf cael gwisg wen, laes
a swancio ynddi rownd y Maes
a dweud '*Helo; Sut mae?*' wrth Myrddin
ac ysgwyd llaw efo Hywel Gwynfryn.

Ond os na chaf un, byddaf adra'
yn beirniadu'r Cyfansoddiada',
gan nad pob bardd sydd yn barddoni,
na phob llenor sy'n cyfansoddi
ac er yn gallu ysgrifennu-
nid pob beirniad all feirniadu!!!
Nid pawb sy'n ddoeth o fewn eu maes-
mae'r tew yn denau-os mewn staes!

Ac yma byddaf, dalltwch chi,
yn gwneud 'r un peth yn Twenti Thrî.
Os mai anlwc a ddaw eto,
troi a wnafl i ganu alto
a joinio Côr Cerdd Dant Bryn Teg
neu ella ddechra' sgwennu'n Saesneg!
Mae sawl un 'di ennill gwobr
am gerdd neu ddwy sy'n hynod sobr-
jyst eu bod yn yr Iaith Fain
a swnio'n glyfar iawn eu sain.
Felly Gymru, byddwch barod-
nid yw'r boi yma wedi darfod.
Os y Bardd Cocos gafodd sylw
am ei waith, a oedd mor salw,
'falle fod 'na obaith imi-
felly daliat ati i farddoni.

gan J.Richard Williams